



CLILC • WLGA

HYSBYSEB AR GYFER AELODAU LLEYG AR RAN Y CYNGHORAU

PENODI LLEYGWYR I BWYLLGORAU LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn awyddus i benodi Lleygwyr i'w Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ar hyn o bryd.

Mae'r pwyllgorau statudol hyn yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu a rhaglen cefnogi gwelliant Awdurdodau Lleol. Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cynnig sicrwydd annibynnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, asesu perfformiad, ymdrin â chwynion a chywirdeb y dulliau adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethu. Drwy oruchwyllo'r gwaith archwilio mewnol ac allanol, gwneir cyfraniad pwysig tuag at sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio cyfarfodydd ar-lein ar gyfer eu Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio wrth feddwl am y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i Leygwr gymryd rhan mewn Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd y pwyllgorau'n cyfarfod sawl tro yn ystod y flwyddyn a bydd Lleygwyr (Aelodau Annibynnol) yn derbyn tâl ariannol.

Rhoddir taliadau yn unol â'r cyfraddau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, gweler yr adroddiad sydd ynghlwm (adran 9, tudalennau 30-31). [WG42164 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol \(llyw.cymru\)](#)

Mae lleygwr yn golygu nad yw'r person:

1. Yn aelod nac yn swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol,
2. Ar unrhyw adeg yn y cyfnod o ddeuddeng mis yn gorffen ar ddyddiad y penodiad wedi bod yn aelod nac yn swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol, nac
3. Yn briod nac yn bartner sifil i aelod neu swyddog mewn unrhyw awdurdod lleol.

Yn ogystal â bodloni'r meini prawf hyn, bydd angen i ymgeiswyr addas fod yn anwleidyddol gyda dealltwriaeth ac ymroddiad i'r [7 Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus](#) (Egwyddorion Nolan) a gallu dangos y rhinweddau a'r priodoleddau canlynol:

- Diddordeb a gwybodaeth/profiad o reoli materion ariannol, risg a pherfformiad, archwilio, cysyniadau a safonau cyfrifeg, a'r drefn reoleiddio yng Nghymru;

- Meddwl gwrthrychol ac annibynnol gydag agwedd ddiuedd a'r gallu i fod yn gynnil;
- Cefnogi egwyddorion llywodraethu da a'u defnyddio'n ymarferol er mwyn cyflawni'r amcanion sefydliadol;
- Meddwl yn strategol gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog;
- Gallu deall a phwyso a mesur tystiolaeth a herio gyda pharch.

Byddai gwerthfawrogiad o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio sy'n gweithredu yng Nghymru a chyd-destun lleol yr Awdurdod yn ofyniad.

Nid yw gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol yn angenrheidiol, er y disgwylir i ymgeiswyr posibl fod â diddordeb mewn materion yn ymwneud â bywyd a gwasanaethau cyhoeddus. O fis Mai 2022 bydd Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cadeirio gan Leygwr, felly byddai'r parodrwydd a'r gallu i ymgymryd â'r rôl hon yn ddymunol.

Os oes gennych ddiddordeb neu brofiad ym maes llywodraethu, archwilio, rheoli perfformiad neu reoli risg ac yn awyddus i helpu awdurdod lleol i sicrhau ei fod yn cael ei lywodraethu'n effeithiol, gallwch ymweld â [gwefan CLILC](#) i weld pa awdurdodau lleol sy'n recriwtio ar hyn o bryd.